

Cofnodion Cyfarfod Agored Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2017 yn Swyddfa'r Asiantaeth Safonau Bwyd, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd.

Yn bresennol:

Aelodau Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru (WFAC) a oedd yn bresennol:

Dr R Hussey
Mr R Alexander
Dr H Jones
Mr D Peace
Dr N Barry
Mr A Gardner
Mr J Wilson

Swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a oedd yn bresennol:

Richard Bowen – Cyfarwyddwr (Dros Dro) yr Asiantaeth yng Nghymru
Helen George – Ysgrifenyddiaeth
Lucy Edwards – Ysgrifenyddiaeth
Nina Purcell yn bersonol a Michael Jackson drwy fideo-gynhadledd ar gyfer Papurau FSAW 17-11-05 a FSAW 17-11-06
Julie Pierce yn bersonol ar gyfer Papurau FSAW 17-11-08 a FSAW 17-11-09
Paul Cook drwy fideo-gynhadledd ar gyfer Papur FSAW 17-11-07

1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod agored y Pwyllgor, a rhoi gwybod i'r rheiny a oedd yn bresennol am y siaradwyr gwadd a fyddai'n cyflwyno papurau.

2. Datganiadau o fuddiannau

2.1 Fe nododd aelodau'r Pwyllgor y datganiadau canlynol o fuddiannau:

- Dywedodd David Peace ei fod yn gadeirydd anweithredol grŵp Hall Mark, ac yn gynghorydd busnes i fusnes bwyd fferm yn Sir Fynwy.
- Dywedodd Norma Barry ei bod yn aelod o Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru ac mae hefyd yn Llysgennad Gwin i Gymru fel rhan o'r rôl hon.
- Cyngorodd Ruth Hussey mai hi yw Cadeirydd yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.
- Dywedodd Ronnie Alexander ei fod yn aelod o Fwrdd Cydnabyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

- Dywedodd James Wilson ei fod yn aelod o Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru ac yn berchen ar fusnes pysgod cregyn.
- Dywedodd Alan Gardner ei fod yn cadw da byw gyda diadell fechan o ddefaid.

2.2. Nodwyd pob datganiad. Ni wnaeth unrhyw aelod dynnu'n ôl o'r trafodaethau.

3. Cofnodion y cyfarfod agored diwethaf (Papur FSAW 17/11/01)

3.1 Derbyniwyd cofnodion drafft y cyfarfod agored a gynhaliwyd ar 14 Medi fel cofnod cywir o'r trafodaethau. Cytunwyd y dylid cyfieithu'r cofnodion terfynol a'u rhoi ar y wefan. **Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

4. Adroddiad gan y Cadeirydd (Papur FSAW 17/11/02)

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd ei hadroddiad ysgrifenedig ar y materion a godwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2017. Wrth roi sylwadau ar yr adroddiad, diweddarodd y Cadeirydd y Pwyllgor am yr ymweliadau a'r cyfarfodydd y mae wedi cymryd rhan ynddynt ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, gan gynnwys cyfarfod gyda Chadeirydd y Bwrdd a'r Gweinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd, Rebecca Evans AC.

4.2 Mewn diweddariad llafar pellach, mynegodd y Cadeirydd ei diolch i Baraka Foods Ltd am gynnig cipolwg gwerthfawr i weithdrefnau cynhyrchu bwyd wrth groesawu'r Pwyllgor am ddiwrnod datblygu ym mis Hydref.

5. Diweddariad gan y Cyfarwyddwr (Papur FSAW 17/11/03)

5.1 Cafodd y Pwyllgor yr adroddiad rheolaidd gan y Cyfarwyddwr dros dro yng Nghymru, a oedd yn rhoi gwybod iddynt am newidiadau diweddar i dîm gweinidogion y Prif Weinidog gyda chyfrifoldeb dros yr ASB bellach yn perthyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AC.

5.2 Roedd yr adroddiad hefyd yn sôn am Femorandwm o Ddealltwriaeth (MOU) a lofnodwyd yn ddiweddar gyda *Welsh Lamb and Beef Producers Ltd* sy'n nodi'r egwyddorion cyffredinol o ran cydweithio, cydweithredu, rolau a chyfrifoldebau, sy'n cefnogi'r broses ennill cydnabyddiaeth sy'n cynnwys yr ASB a *Welsh Lamb and Beef Producers Ltd*. Bydd y Memorandwm yn cael ei rannu gydag aelodau'r pwyllgor. **Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

5.3 Mewn diweddariad llafar pellach, fe ddiweddarodd Cyfarwyddwr y Pwyllgor am ymrwymadau allanol ers y cyfarfod diwethaf gan hysbysu'r Pwyllgor fod ei benodiad wedi'i ymestyn hyd at fis Chwefror 2019.

6. Rheoleiddio Ein Dyfodol – yr ASB fel Rheoleiddiwr Cynorthwyol o dan Gynllun y Prif Awdurdod (Papur FSAW 17/11/05)

6.1 Aeth yr aelodau ati i ystyried y papur a oedd yn amlinellu'r dull arfaethedig ar gyfer rôl yr ASB fel rheoleiddiwr cefnogol o dan gynllun Prif Awdurdod.

6.2 Nododd y Pwyllgor y cefndir mewn perthynas â statws Prif Awdurdod yng Nghymru a Lloegr a bod yr ASB wedi dod yn reoleiddiwr cefnogol ym mis Hydref 2017 fel rhan o'r newidiadau a ddaeth i rym gyda Deddf Menter 2016. Holodd aelodau am yr awydd cyfredol am statws Prif Awdurdod, a nodwyd bod hyn yn statig yng Nghymru.

6.3 Wrth nodi natur arfaethedig a maint rôl yr ASB fel rheoleiddiwr cefnogol dan y cynllun Prif Awdurdod, nododd y Pwyllgor y canlynol:

- yr angen i gael mecanweithiau sicrwydd a llywodraethu cadarn ar waith ar gyfer y rôl arfaethedig;
- yr angen am eglurder pellach ar rôl y Prif Awdurdod mewn perthynas â Chymru;
- pwysigrwydd rheoli unrhyw fuddiannau a all fod yn gwrthdaro i sicrhau nad yw rôl yr ASB fel rheoleiddiwr cefnogol yn gwrthdaro â'i rôl bresennol fel un ai Awdurdod Cymwys Canolog, Awdurdod Cymwys, neu fel rheoleiddiwr cenedlaethol mewn unrhyw broses pennu Prif Awdurdod;
- yr angen i ddeall yn llawn p'un a all y cysyniad o reoleiddiwr cynorthwyol alluogi'r ASB i gynnig modd mwy strwythuredig o ddarparu cyngor i bartneriaethau Prif Awdurdod, heb gyfaddawdu gwerthoedd cynhenid yr ASB o fod yn annibynnol, yn agored ac yn dryloyw, a'i hymrwymiad i roi defnyddwyr yn gyntaf.

6.4 Nododd y Pwyllgor yr ansicrwydd o amgylch y galw tebygol ar yr ASB mewn rôl rheoleiddiwr cefnogol, ac yng ngoleuni'r ystyriaethau uchod, daethpwyd i'r casgliad efallai y byddai dull cam wrth gam yn fwy priodol. Roedd y Pwyllgor o'r farn y gallai cyfyngu'r rôl rheoleiddiwr cefnogol i amgylchiadau eithriadol mewn achosion o ymyriadau yn unig helpu i leihau unrhyw effaith niweidiol ar adnoddau'r ASB. Nodwyd na fyddai'r mesur dros dro hwn yn cyfyngu ar adolygu a diwygio cynnig rheoleiddio cefnogol yr ASB yn y dyfodol.

7. Datblygu'r Fframwaith Sicrwydd ar gyfer y Model Gweithredu Targed (Papur FSAW 17/11/06)

7.1 Aeth y Pwyllgor ati i ystyried y papur sy'n amlinellu'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu'r fframwaith sicrwydd ar gyfer y Model Gweithredu Targed ac sy'n trafod y blaenoriaethu a all fod yn gysylltiedig â chysyniad Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig y fframwaith sicrwydd yn benodol.

7.2 Mewn perthynas â'r fframwaith sicrwydd ar gyfer Model Gweithredu Targed Rheoleiddio Ein Dyfodol, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol:

- yr angen i archwilio'r dystiolaeth sy'n awgrymu ei bod yn dod yn fwyfwy anodd i rai awdurdodau lleol gynnal lefelau priodol o adnoddau i gyflawni'r ystod lawn o weithgareddau rheolaethau swyddogol. Yn hyn o beth, nododd y Pwyllgor bod yr ASB yng Nghymru wedi ysgrifennu at Brif Weithredwyr pum awdurdod lleol yn ddiweddar, mewn ymateb i ddiffygion a nodwyd mewn ymyriadau hylendid bwyd mewn busnesau yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017. Mae'r llythyr yn atgoffa Prif Weithredwyr o gyfrifoldeb statudol eu hawdurdod lleol i gyflawni ymyriadau hylendid bwyd a'u pwysigrwydd wrth gynnal credadwyedd y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Nodwyd y gofynnwyd hefyd i Brif Weithredwyr ddarparu manylion unrhyw amgylchiadau lliniarol a'u cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â'r diffygion;
- yr angen am ddealltwriaeth ddyfnach o'r gweithlu sydd ei angen i gyflawni rheolaethau swyddogol yn y dyfodol. Eglurdeb ar yr ystod o sgiliau sydd eu hangen i gynorthwyo â chynllunio'r gweithlu;
- yr angen i gynnal diffuantrwydd y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru;
- pryderon am agweddau ennill cydnabyddiaeth y fframwaith, ac i'r diben hwn byddai'r Pwyllgor yn croesawu gweld y cysyniad hwn yn cael ei beilota a'i brofi. Nodwyd bod y cynlluniau sicrwydd yn gweithio'n llwyddiannus yn rhai agweddau o'r diwydiant, gan gynnwys y diwydiant ffermio;
- yr angen i wneud cynnydd ar fodel ariannu cynaliadwy ar gyfer y Model Gweithredu Targed ei hun, fel bod modd cynllunio'r capasiti a'r sgiliau i sicrhau system gynaliadwy.

7.3 Mewn perthynas â'r cysyniad o Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig, croesawodd y Pwyllgor y gwaith sydd wedi'i gynnal i archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno unigolyn sydd wedi'i gyflogi yn y sector preifat i gasglu sicrwydd swyddogol ar gyflwyno mesurau rheoli diogelwch mewn busnesau bwyd. Nododd y Pwyllgor yr adborth cymysg a ddaeth i law drwy ymgynghori ag ystod o randdeiliaid a'r cyhoedd ar Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig, ac yn benodol mewn perthynas â phryderon yn ymwneud â chymodi'r gwrthdaro buddiannau posibl a all godi mewn perthynas â hyn.

7.4 Ar y cyfan, roedd y Pwyllgor o'r farn bod llawer o ansicrwydd yn dal i fodoli o ran rôl yr Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig a bod ychydig o bryder na fyddai'n bodloni disgwyliadau.

7.5 Wrth wneud sylwadau ar y ddau bapur Rheoleiddio Ein Dyfodol uchod, roedd y Pwyllgor yn ymwybodol, ac wedi derbyn copi, o gyfathrebiaeth ddiweddar gan Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (DPPW) yng Nghymru gyda'u hymateb i bapur 'Rheoleiddio Ein Dyfodol' yr ASB. Nid oedd y Pwyllgor wedi ystyried papur DPPW yn fanwl, a nodwyd y byddai'r ASB yn ymateb yn ffurfiol i'r ddogfen.

8. Diweddariad Cadw Gwyliadwriaeth Strategol (Papur FSAW 17/11/08)

8.1 Croesawodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth cadw gwyliadwriaeth yr ASB gan nodi'r prif ffactorau sy'n sbarduno'r rhaglen wyliadwriaeth. Roedd y rhain yn cynnwys paratodau ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE), gwireddu rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol a diogelu'r gadwyn cyflenwi bwyd ar gyfer y dyfodol. Wrth nodi'r bwriad i gomisiynu adolygiad allanol o system labordai rheolaethau swyddogol y Deyrnas Unedig, nododd y Pwyllgor y byddai'n croesawu rhagor o wybodaeth ar gwmpas, cost ac amserlen yr adolygiad.

8.2 Nododd y Pwyllgor pa mor bwysig yw cynnal trafodaethau ag lechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o'r adolygiad hwn. Mewn perthynas â'r model gweithredu cadw gwyliadwriaeth lefel uchel a fanylwyd arno yn y papur, nododd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y rhaglen cadw gwyliadwriaeth yn gliriach. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd sicrhau ffynhonnell data gadarn. Ymhellach, tynnodd y Pwyllgor sylw at nifer o faterion gwyliadwriaeth sy'n gysylltiedig â rheolaethau iechyd porthladdoedd.

8.3 Yn ddibynnol ar yr arsylwadau uchod, roedd y Pwyllgor yn croesawu'r papur a'r dull arloesol sy'n cael ei fabwysiadu gan yr ASB yn ei gwaith ar gadw gwyliadwriaeth.

9. Deall Pobl: Y Gwyddorau Cymdeithasol yn yr ASB (Papur FSAW 17/11/09)

9.1 Aeth y Pwyllgor ati i ystyried y papur a oedd yn nodi'r diweddariad blynyddol ar ddefnyddio Gwyddorau Cymdeithasol yn yr ASB, ac yn gosod y cynigion ar gyfer ei chyfeiriad yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys uno'r tîm ymgysylltu â defnyddwyr a'r tîm gwyddorau cymdeithasol i ffurfio Uned Analytig newydd yn yr Adran Gwyddoniaeth, Tystiolaeth ac Ymchwil.

9.2 Cefnogodd y Pwyllgor nifer o egwyddorion a amlinellwyd yn y papur, gan gynnwys pwysigrwydd datblygu partneriaethau strategol, sy'n cynnwys rhwydweithiau academiaidd ac yn y diwydiant, i gyflwyno arloesedd a meddwl rhyngddisgyblaethol. Wrth nodi'r bwriad i sefydlu Pwyllgor Cynghori Gwyddorau a Data Cymdeithasol newydd, nododd y Pwyllgor y byddai'n croesawu gwybodaeth bellach am y cyfansoddiad arfaethedig a rôl y pwyllgor cynghori.

9.3 Wrth gynnig sylwadau ar y cyfeiriad yn y dyfodol, cyfeiriodd y Pwyllgor at raglen Rheoleiddio Ein Dyfodol a'r gwaith ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd fel meysydd y dylid canolbwyntio arnynt yn arbennig. Yn ogystal, amlygodd y Pwyllgor yr angen i wella'r ddealltwriaeth o dirlun defnyddwyr sy'n newid ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac unrhyw faterion sy'n benodol i'r wlad. Wrth wneud y sylw hwn, mae'r Pwyllgor yn ystyried bod gan Gymru lefelau uwch o tlodi, ac mae'r Pwyllgor ar hyn o bryd, gyda chefnogaeth dadansoddiadau data gan y Tîm Gwyddorau Cymdeithasol, yn archwilio'r berthynas rhwng tlodi, y gallu i ddiogelu'r cyflenwad bwyd a diogelwch bwyd yng Nghymru.

Yn ei gasgliadau, croesawodd y Pwyllgor y papur ac roedd yn cefnogi'r ffocws cynyddol ar ddefnyddio gwyddorau cymdeithasol.

10. Diweddariad ar Weithgareddau'r ASB ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (Papur FSAW 17/11/07)

10.1 Aeth y Pwyllgor ati i ystyried y papur sy'n amlinellu gweithgarwch yr ASB mewn perthynas ag ymwrthedd gwrthficrobaidd ac sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd ers i'r Bwrdd drafod y mater hwn ddiwethaf ym mis Medi 2016.

10.2 Wrth nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithgarwch cadw gwylidwraeth yn y maes, gwnaeth y Pwyllgor yr arsylwadau canlynol:

- ei fod yn croesawu'r cynnydd sylweddol ym meysydd creu tystiolaeth, pontio agweddau iechyd anifeiliaid a phobl, ac ymgysylltu rhyngwladol;
- ei fod yn cydnabod bod gwaith ar ymwrthedd gwrthficrobaidd yn fater byd-eang brys;
- ei fod yn gobeithio na fydd Ymadael â'r UE yn effeithio'n negyddol ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y Deyrnas Unedig ac mewn perthynas ag Arolwg wedi'u Gysoni yr UE, ac yn gobeithio y byddai perthnasau yn parhau ar ôl 2019 i sicrhau bod y cydweithio a'r gwaith cadw gwylidwraeth yn parhau;
- byddai wedi croesawu gwybodaeth ar gynnydd ar lefel gwlad i leihau'r defnydd o wrthfotigau yn y diwydiant bwyd fel y nodir yng nghynllun Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd am ddiweddariad gan Gyfarwyddwr Dros Dro Cymru yn dilyn ei gyfarfod sydd ar y gweill gyda'r Prif Swyddog Milfeddygol yng Nghymru;
- bod bylchau posibl yn y data mewn perthynas â dyframaeth a'r amgylchedd mewn perthynas â chyflenwadau dŵr.

Yn ddibynnol ar yr arsylwadau uchod, roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r dull arfaethedig a gynigiwyd yn y papur i sicrhau bod yr ASB yn gwneud y cyfraniad gorau y gallai at y gwaith ar draws y llywodraeth ar weithredu ar beryglon ymwrthedd gwrthficrobaidd.

11. Adborth gan Rwydweithiau'r Pwyllgor

11.1 Dim i'w nodi.

12. Sesiwn Holi ac Ateb

12.1 Caiff yr holl faterion a godwyd fel rhan o'r sesiwn eu hadlewyrchu yn y sylwadau uchod.

13. Unrhyw fater arall

13.1 Nododd y Pwyllgor y byddai'r cyfarfod agored nesaf yn cael ei gynnal ar 8 Mawrth 2018.

Camau Gweithredu

Myneg ai	Camau gweithredu	Erbyn	Statws
Paragr aff 3.1	Cofnodion cyfarfod mis Mehefin i'w cyfieithu a'u rhoi ar y wefan.	31 Ionawr 2018	
Para 5.2	Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i'w rannu gyda'r Pwyllgor.	31 Ionawr 2018	